CYNGOR TREF RHUTHUN
RUTHIN TOWN COUNCIL

Cofnodion cyfarfod y **Pwyllgor Amwynderau** a gynhaliwyd
nos Lun 7 o Chwefror 2022 am 7:30pm fel cyfarfod hybrid
(sef yn yr Hen Lys ac ar Zoom).

YN BRESENNOL: Cynghorwyr Menna Jones (Cadeirydd), Anne Roberts, Jim Bryan, Heather Williams, Christine Ellis, Mike van der Eijk, Gavin Harris a Rachel Lewington.

Hefyd: Siân Clark – Clerc y Dref, Kate Harcus – Dirprwy Glerc a Marian Rees – Cyfieithydd.

Croesawodd y Cynghorydd Menna Jones bawb i cyfarfod cyntaf hybrid o'r Pwyllgor Amwynderau.

91. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB
Derbynwyd ymddiheuriadau gan y Cyng Stephen Beach.

92. DATGAN BUDDIANNAU
Dim.

93. COFNODION Y CYFARFOD BLAENOROL
PENDERFYNWYD*: bod cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Amwynderau a gynhaliwyd ar 10 o Ionawr 2022 yn cael eu cadarnhau fel cofnod cywir.*

94. MATERION YN CODI
Dim.

95. MEINCIAU CYHOEDDUS
Hysbyswyd bod cynnig ar y gweill am fainc goffa mewn man priodol yn agos at y bont ar y Ffordd Gyswllt Ogleddol. Byddai'r fainc, i'w rhoi gan Jones Bros, er cof y diweddar Mr Mike Roberts, un o drigolion Rhuthun a gweithiwr Jones Bros ers blynyddoedd lawer, a fu'n gweithio ar adeiladu'r Ffordd Gyswllt. Rhoddwyd gwybod i'r Aelodau, bod y drwydded meinciau gan Gyngor Sir Ddinbych ar waith, ac yn amodol ar gytundeb y Pwyllgor, y gellid ychwanegu'r cais am y fainc goffa at fanylion y drwydded. Byddai angen cytuno ar leoliad terfynol y fainc goffa drwy'r sianeli priodol. Cadarnhawyd unwaith y byddai'r fainc goffa yn ei lle byddai'n cael ei chynnal gan y Cyngor Tref a'i hychwanegu ar y gofrestr asedau.

PENDERFYNWYD: *cefnogi gosod mainc goffa mewn lleoliad priodol y cytunwyd arno ar hyd y Ffordd Gyswllt Ogleddol*

96. Y BROSES DENDRO
Cafwyd diweddariad ar y broses dendro ar gyfer cynnal a chadw glaswellt, basgedi crog a dyfrio. Roedd y Cadeirydd a'r Clerc wedi ystyried y dogfennau ffurfiol ac wedi'u diweddaru fel y bo'n briodol. Byddai'r dogfennau tendro'n cael eu hanfon at gwmnïau priodol yn ceisio dyfynbrisiau ar gyfer y gwaith i'w wneud
PENDERFYNWYD: *nodi y diweddariad ar y broses dendro.*

97. TREF TACLUS

Ystyriodd a chytunwyd ar amserlen fisol ar gyfer codi sbwriel yn y dref. Byddai digwyddiad ail-lansio yn cael ei gynnal ddydd Sadwrn 27 Chwefror 2022 gyda digwyddiadau codi sbwriel yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn olaf y mis. Gallai digwyddiadau a gefnogir gan sefydliadau eraill, megis cyfnewid planhigion Incredible Edible a digwyddiadau Cyfeillion y Ddaear hefyd gysylltu â'r dyddiadau casglu sbwriel. Roedd yr aelodau'n awyddus i gynyddu cyfranogiad ysgolion a phobl ifanc y dref yn y digwyddiadau

PENDERFYNWYD: *cynnal digwyddiad Tref Daclus i'w ail-lansio ddydd Sadwrn 27 Chwefror 2022 gyda digwyddiadau codi sbwriel yn cael eu cynnal ar ddydd Sadwrn olaf y mis.*

98. LLWYBR AR HYD YR A525 – RHUTHUN I LLANFAIR

Roedd ymateb gan Tony Ward, Pennaeth Gwasanaethau Priffyrdd ac Amgylcheddol Cyngor Sir Ddinbych ynghylch y llwybr ar hyd yr A525 o Ruthun i Lanfair DC wedi'i dderbyn a'i ddosbarthu i'r Aelodau. Nodwyd o ymateb Mr Ward bod Cynllun Teithio Llesol posibl wedi'i ddiystyru, o leiaf ar gyfer y tymor canolig ac y byddai gwaith i ymdrin â'r rhannau o'r llwybr troed sydd wedi gordyfu, a fyddai'n lledu'r llwybr, yn cael ei gyflawni o fewn chwe wythnos. Yn dilyn y gwaith, byddai'r llwybr troed yn cael ei archwilio ac efallai y bydd angen rhagor o waith atgyweirio.

Tra'n nodi'r ymateb, mynegodd Aelodau'r Pwyllgor eu dymuniad i wella'r cysylltiadau rhwng y dref a'r pentrefi cyfagos, nid lleiaf gan fod cymaint o ardaloedd anghysbell yn gymunedau sy'n tyfu. Cytunwyd bod y Clerc yn anfon ymateb i Gyngor Sir Ddinbych (copi i Gyngor Cymuned Llanfair DC) yn mynegi siom y Cyngor Tref.

PENDERFYNWYD: *nodi'r ymateb gan Gyngor Sir Ddinbych ac anfon llythyr yn nol yn mynegi siom y Cyngor tref gan Glerc Cyngor Sir Ddinbych (copi i Gyngor Cymuned Llanfair DC).*

99. DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF

PENDERFYNWYD*: mai nos Lun 7 o Fawrth 2022 y cynhelir y cyfarfod nesaf am 7.30 pm.*